

Tasg Ysgrifennu



Imagine that the Olympics have a golden ticket to give away which would grant you access to every Olympic Games from now on. You must write a letter to convince them why you should win. Your letter should follow the following pattern.

cyfeiriad

dyddiad

Annwyl _____,

Paragraff 1

(Tell them a little about yourself)

Paragraff 2

(Tell them which sports you like and why)

Paragraff 3

(Tell them which athletes you like and why)

Why you want to go the Olympic Games.

Hwyl fawr

enw

Y Gemau Olympaidd





Ty Twt,
Stryd Hapus,
Hwlfordd,
Sir Benfro
SA46 1TE

Mehefin 12, 2015

Annwyl Syr / Madam,

Dafydd Huws ydw i a dw i'n naw oed. Dw i'n byw ar bwys y llyfrgell yn Hwlfordd. Mae un brawd o'r enw Jac gyda fi. Dw i'n mynd i Ysgol Iau Hwlfordd. Dw i'n blwyddyn pedwar a fy athrawes ydy Mrs Jenkins. Y pennaeth ydy Mr Lloyd. Dw i'n hoffi ysgol achos mae'n fendigedig.

Fy hoff chwaraeon ydy athletau. Dw i'n dwlu rhedeg. Dw i'n gallu rhedeg yn gyflym iawn. Dw i'n hoffi rhedeg achos mae'n gyffrous. Dw i'n rhedeg bob dydd yn yr ysgol. Dw i'n hoffi nofio a deifio hefyd. Fel arfer, dw i'n nofio bob wythnos gyda'r ysgol. Weithiau dw i'n nofio ar y penwythnos hefyd. Dw i'n hoffi nofio achos mae'n wych. Dw i'n hoffi beicio hefyd. Dw i'n hoffi beicio mynydd, beicio BMX a beicio ar y ffordd.

Fy hoff athletwr ydy Usain Bolt. Mae Usain Bolt yn rhedeg y ras 100m. Mae e'n gyflym iawn. Mae Usain Bolt yn byw yn Jamaica. Dw i'n hoffi Usain Bolt achos mae e'n dalentog ac yn cwl. Ffug-enw Usain Bolt ydy 'Lightning Bolt'. Dw i'n hoffi David Davies hefyd. Mae David Davies yn nofio. Mae e'n byw yng Nghymru. Dw i'n hoffi David Davies achos mae e'n dalentog. Ffugenw David Davies ydy 'Dai Splash'. Mae e wedi ennill medal efydd a medal arian yn y Gemau Olympaidd.

Hoffwn i fynd i'r Gemau Olympaidd achos hoffwn i weld Usain Bolt.

Hwyl fawr

Dafydd